CYNGOR CYMUNED
LLANBERIS A NANT PERIS

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cofnodion cyfarfod 12fed o Fehefin 2024 a gynhaliwyd yn y Ganolfan am 7 yn yr hwyr** | | | |
| **PRESENNOL** | | | |
| Gwilym Evans (Cadeirydd) | | Iola Owen | |
| Trystan Thomas | | Helen Sharp | |
| Emlyn Baylis | | Iwan Harding | |
| Louise Price | | Llinos Haf Pritchard | |
| Rhys ap Gwilym | | Nia Jones | |
| **1.** | **GEIRIAU AGORIADOL Y CADEIRYDD AC YMDDIHEURIADAU** | | |
| | Agorwyd y cyfarfod yn ffurfiol gan y Cynghorydd Gwilym Evans y Cadeirydd. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y canlynol, Cynghorydd Kim Jones, Cynghorydd Kevin Jones a Cynghorydd Bethan Holding. | **CLERC** | |
| 1.1 | Ni chafwyd cyfranogiad gan y cyhoedd. | | |
| 1.2 | Cyfyngiad Cyflymdra - Penderfynwyd bod lleoliadau 20 m.y.a. yn dderbyniol ond am y terfyn yn Nant \| Peris - angen ei symud at Tyn Twll/Gwastadant, | | |
| 1.3 | Cynllun Finyls - efallai bod rhai siopau fydda yn gallu bod yn rhan o'r cynllun. Yr Hen Gemist ac efallai hen siop bapur. | | |
| 1.4 | Gwaharddiadau a chyfyngiadau parcio ar y stryd - penderfynwyd derbyn. Hefyd y Clerc i anfon at adran Priffyrdd i ddweud bod rhannau o'r marciau ffordd wedi i wisgo i ffwrdd a bod angen eu paentio. | | |
| 1.5 | Ardal limbo a phroblemau sŵn o gerddwyr digwyddiadau yn y nos - trafodwyd y mater yn drylwyr. Cafwyd gwybodaeth bod dau lwybr drwy Coed Fictoria y byddai'r trefnwyr yn gallu arwain y bobl i ddefnyddio. Mae un ar hyn o bryd ddim yn addas ar gyfer ei ddefnyddio tra bo ychydig o waith ar y llall. Y Clerc i wneud cysylltiad â threfnwyr fel Raw Adventures ac yn y blaen i annog bod angen parchu'r trigolion a'r ardal. | | |
| **2.0** | **DATGAN DIDDORDEB** | | |
| | Dim | | |
| **3.0** | **CADARNHAU GWARIANT A CHYFLWYNO ADRODDIAD ARIANNOL** | | |
| 3.1 | Cyflwynwyd gwariant ac adroddiad ariannol mis Mai 2024 a'u derbyn. | | |
| **4.0** | **CADARNHAU COFNODION MIS BLAENOROL A MATERION YN CODI** | | |
| 4.1 | Cadarnhawyd cofnodion mis Mai 2024. | | |
| 4.2 | CCTV - wedi derbyn gwybodaeth oddi wrth yr heddlu bod gweithgareddau gwrth cymdeithasol wedi distewi, hyn oherwydd bod personau wedi cael eu harestio ac wedi eu diarddel o'r ysgol. | | |
| 4.3 | Newid Safle Bin Sbwriel Cae Chwarae Lan Llyn - dim dilyniant gan Gyngor Gwynedd, ond mae'r mater wedi ei anfon ymlaen i bennaeth yr adran. Penderfynwyd byddai bin ail gylchu yn cael ei roi ger y cae amlbwrpas. Y Clerc i gysylltu â Chyngor Gwynedd i archebu'r bin priodol. Fe drafodwyd hefyd bod wal coed y ddol yn cael ei difrodi oherwydd bod plant (a defaid) yn dringo drosti ar gyfer mynd i nôl peli dydd wedi cael eu cicio o'r cae chwarae. Trafodwyd rhoi rhyw fath o rwystr ar y goliau a hefyd rhwydi uchel ger y wal. | **CLERC** | |
| 4.4 | Cerflun Coffa'r Chwarelwyr - mae problemau yn bodoli gyda safle Parc Bach oherwydd bod gwasanaethau dwr a thrydan yn mynd oddi tan y wyneb, felly mae angen edrych ar safle newydd. Gobeithir bod safle ger cyffordd y stryd fawr a'r ffordd osgoi yn addas. | **CLERC** | |

CYNGOR
CYMUNED
LLANBERIS A NANT PERIS

| | | |
|---|---|---|
| 4.5 | Parcio - cafwyd gwybodaeth bod arian o'r mae parcio ger y castell oddeutu deg mil eleni a bod angen anfoneb at y parc er mwyn ei dderbyn - y Clerc i wneud hyn. Fe drafodwyd hefyd bod meysydd parcio eraill o fewn y pentref fod i roi cyfraniad o 10% yn flynyddol i'r Cyngor Cymuned, ond nid yw hyn wedi bod yn digwydd, Y Clerc i wneud ymholiadau. Hefyd roedd angen sicrhau os oedd cyfraniad o'r meysydd parcio yma yn mynd at ostyngiad cyfraniad y Cyngor Cymuned i gostau blynyddol y toiledau. Y Clerc i wneud ymholiadau eto. Codwyd o'r sgwrs hwn - pa bryd oedd peirannau talu yn y Glyn yn mynd i fod yn weithredol, pam nad oedd y bariau yn y Glyn yn cael eu gweithredu ac os oes modd agor y toiledau yn hwyrach. | **CLERC** |
| 4.6 | Cronfa Cymunedol HBO – cyfarfod iw drefnu ar y 26 o Fehefin yn y Ganolfan 2024 – gweler atodiad 1 am y cofnodion. | |
| 4.7 | Campfa Awyr Agored. Mae holiadau wedi cau ac roedd y canlyniadau yn bositif. Bydd angen nawr trefnu cyfarfod gyda Carwyn Williams Parc Padarn i benderfynu ar leoliad. | |
| 4.8 | Trafodwyd y mater o gyfieithu er mwyn cael popeth yn ddwy ieithol - penderfynwyd y byddai cyfieithu dogfennau yn digwydd fel mater o raid o hyn ymlaen a bod dogfennau hanesyddol yn cael eu cyfieithu os byddai cais neilltuol am gopi Saesneg yn dod i law. | |
| 4.9 | Menter/Partneriaeth Llanberis - bydd angen trefnu gwahodd grwpiau a chymdeithasau'r pentref i gyfarfod arbennig. Cynghorydd Rhys ap Gwilym a'r Clerc i weithredu ar hyn. | **RhaG/CLERC** |
| **5.0** | **PRIFFYRDD A LLWYBRAU CYHOEDDUS** | |
| 5.1 | Cafwyd adroddiad bod Pont Meibion yn Nant Peris angen sylw. Hefyd bod y gamfa yn yr afon oherwydd bod y tir wedi ei erydu. Y Clerc i gysylltu â Chyngor Gwynedd. Trafodwyd cael mapiau o'r llwybrau erbyn cyfarfod mis nesaf. | **CLERC** |
| **6.0** | **Y FYNWENT** | |
| 6.1 | Derbyniwyd argymhellion y Pwyllgor i'r costau newydd y Fynwent. | **CLERC** |
| | Mae pobl yn dal i adael gwastraff yn y fynwent. Penderfynwyd bod y Clerc yn gwneud trefniadau i godi arwydd DIM SBWRIEL - PARCHWCH Y FYNWENT. | **CLERC** |
| **7.0** | **CEISIADAU CYNLLUNIO** | |
| | Rhif y cais: C24/0420/15/DT Bwriad: Dymchwel ac ail godi garej newydd Lleoliad: Gwenallt, 29 Newton Street, Llanberis, Caernarfon, Gwynedd, LL55 4HN **DIM GWRTHWYNEBIAD** | |
| **8.0** | **GWEITHGAREDDAU CYMUNEDOL** | |
| 8.1 | Bydd Hwyl yr Had diwedd y mis. | |
| | Fe drafodwyd y Goeden Nadolig ar gyfer 2024. Dywedodd rhai o'r cynghorwyr bod safon y goeden yn 2023 wedi bod yn ofnadwy a bod angen edrych ar y posibilrwydd o efallai cael coeden artiffisial er mwyn bod yn fwy gwyrdd ac i arbed arian. Y Cynghorydd Louise Price i edrych o fewn i wahanol fathau o goed Nadolig sydd ar gael. | |
| **9.0** | **ADRODDIADAU CYRFF ALLANOL** | |
| 9.1 | Llywodraethwyr wedi cyfarfod. Rhoddwyd adroddiad lafar gan y Cynghorydd Louise Price. | |

CYNGOR
CYMUNED
LLANBERIS A NANT PERIS

| Llofnod: | | Dyddiad: 10/7/24 |
|---|---|---|

**Atodiad 1**

Cofnodion - Cyfarfod Panel HBO 26 Mehefin 2024

Presennol: Trystan Thomas (Cadeirydd), Bethan Holding, Emlyn Bayliss, Heather Jones (Clerc)

Ymddiheuriad: Llinos Pritchard

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â chynnwys a rheolau ceisio am y grant.
Penderfynwyd yn lle cyntaf byddai rhaid hysbysebu'r grant ac i wneud hynny byddai angen Poster, Taflenni hysbysebu (fliers) Hysbysebu yn yr Eco a hefyd defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol. Y Clerc i wneud cysylltiad â Stephen Edwards ar gyfer y graphics.

Mae £37,375 wedi ei dderbyn a phenderfynwyd byddai £375 yn cael ei ddefnyddio ar gyfer gweinyddu'r grant.

Gobeithio cael y poster allan cyn gynted a phosib ond bod cyfnod ceisio yn cychwyn ar y 1af o Fedi hyd at y cyntaf o Dachwedd. Os bydd ymgeiswyr angen fwy o wybodaeth yna bydd angen iddynt gysylltu â Trystan Thomas.

Ystyriwyd os byddai menter newydd diwylliannol eisiau trio yn y byddent yn cael eu hystyried ond byddai rhaid iddynt sicrhau bod y fenter ym mharau am 5 mlynedd o leiaf.

Bydda gadarnhad o'r poster yn cael ei wneud drwy gyfarfodydd rhithiol neu e-bost. Dim angen cyfarfod wyneb yn wyneb hyd nes bydd ceisiadau i mewn.